

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer
Bethan Roberts
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

Nos Iau 18 Chwefror 2021 am 18.30

Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mair Pierce Owen

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Lowri Jones

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Y Clerc wedi cysylltu gyda Dylan Wynn Jones, Cyngor Gwynedd i holi am y cynllun ag addawyd erbyn diwedd mis Ionawr. Ni dderbyniwyd y cynllun mesuriadau tawelon traffig erbyn y cyfarfod. Y Cynghorwyr wedi derbyn llawer mwy o gwynion, y Cyngor yn poeni yn ddifrifol am y posibilrwydd uchel o ddamwain yn digwydd. Y Clerc i pwysleisio ein pryderon eto gan gynnwys y Cadeirydd, Cyng. Richard Fraser-Williams ac Cyng. Dafydd Owen yn yr ebost.
- 3.2 Llecyn Tir, Bont Twr – Wedi derbyn ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group. Mae'r mater bellach yn nwylo cyfreithwyr, a bydd yn ymateb pan fydd hi'n cael diweddariad.
- 3.3 Gyli ym Mhentref Llandygai – Julian Johnson wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Cymuned yn ogystal a Chyngor Gwynedd – Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd wedi gosod hwn ar eu rhaglen waith ac yn gobeithio gweithredu yn fuan iawn.
- 3.4 Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – Mae'r bolard bellach wedi gael ei osod, ond nid yw'r bolard yn yn weladwy iawn. Cyng. Dafydd Owen wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd. Y Clerc i gysylltu eto hefyd.
- 3.5 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – Cyng. Dafydd Owen i drafod y mater gyda'r perchennog.

- 3.6** Llwybr Rhif 3 – swyddog llwybrau wedi ymateb i gadarnhau bydd arwyddion a giatiau newydd yn cael ei rhoid ar y llwybr. Nodwyd fod Cyng. Dafydd Owen wedi trafod y mater gyda'r swyddog llwybrau, ac yn anffodus nid yw'r swyddog wedi gael cyfle i weld y ffarmwr.
- 3.7** Problemau gyda gyrrwyr bws methu gweld pobl yn yr arhosfan bws ger Pant yr Ardd oherwydd nifer fawr o geir yn parcio ar hyd o ffordd. Nid yw'n bosib symud yr arhosfan yn uwch i fyny oherwydd materion gwelededd, ond cadarnhawyd y bydd Cyngor Gwynedd wedi rhoid archeb i fewn ar gyfer marciau ffordd safle bws. Mi fydd hyn yn tynnu sylw fod yna safle bws yn presennol ar safle, yn ychwanegol yn atal cerbydau rhag barcio yno.
- 3.8** Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod Stad y Penrhyn wedi cytuno gyda Cyng. Dafydd Owen eu bod am glirio'r ysbwriel erbyn y 27 Ionawr 2021, ond nid yw'r gwaith clirio wedi gael ei gwblhau. Y Clerc i cysylltu gyda Stad Penrhyn gan gynnwys yr adran iechyd a'r amgylchedd, Cyngor Gwynedd a aelod portffolio'r amgylchedd, Cyng. Gareth Griffiths.
- 3.9** Draeniau yn ardal Mynydd Llandygai angen i glanhau eto, yn enwedig y rhai rhwng Lon y Grug ac Ysgol Bodfeurig. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 3.10** Gofalwr Neuadd Talgai wedi colli goriad i hysbysfwrdd Llandygai – nid oes oriad yn y swyddfa, y Clerc i gysylltu eto gyda'r cwmni'r hysbysfwrdd i holi am un arall. Dim ymateb gan y cwmni eto.
- 3.11** Problemau gyda baw ci yn Nhregarth – Cyng. Dafydd Owen wedi ysgrifennu at Peter Simpson, Cyngor Gwynedd i ofyn am arwyddion a biniau ychwanegol.
- 3.12** Beiciau Modur yn tresmasu ar Gwaun Gynfi. Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda Dewi Wyn Owen, Cyngor Gwynedd i ofyn os oes bosib gael giat newydd yn y fynediad o Tan y Bwlch, i atal mynediad i'r beiciau yn y dyfodol.
- 3.13** Coed Wern, Glasinfyn – clirio sylweddol o goed ar y safle, Cyng. Dafydd Owen wedi holi'r adran cynllunio. Cadarnhawyd fod Gareth Llwyd o Fenter Iaith Dyffryn Ogwen hefyd wedi bod mewn cyswllt a Paula Evans yn yr adran gorfodaeth yng Nghyngor Gwynedd. Nodwyd fod y tirlfeddiannwr wedi bod yn cwblhau gwaith cynnal a chadw ar y safle, a bod ganddynt yr hawl i wneud hyn. Y Cyngor i gadw llygaid ar y safle yn y dyfodol.
- 3.14** Adroddiad Llifogydd Mynydd Llandygai – Diolchwyd Cyng. Lowri Jones am baratoi'r ymateb i'r adroddiad hwn. Y Clerc wedi danfon ymateb y Cyngor i YGC, ddim ymateb hyd yn hyn.
- 3.15** Holiadur Treth Cyngor Gwynedd – ymddiheurodd y Cadeirydd am fethu gwblhau'r holiadur cyn y dyddiad cau.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2021'

Cyflwynwyd: Ebst Sharon Breward – Cais cynllunio Chwarel Penrhyn – Nid yw'r Cyngor yn ystyried yr olygfa ar hyn o bryd, oherwydd bod angen codi'r domeni yn sylweddol fwy er mwyn idda nhw wneud gwahaniaeth mawr. Y Cyngor i drafod eto pan cawn y cynlluniau terfynnol.

Cyflwynwyd: Cyngor Tref Nefyn – Y farchnad dai gwyliau – Cyngor yn cefnogi, y Clerc i ddanfoni y llythyr dempled ymlaen at Julie James AS. Y Clerc hefyd i ddiolch i Gyngor Nefyn am weithredu ar y mater yma.

Cyflwynwyd: Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus: CCA 3 Cynllunio a'r iaith Gymraeg – ail gyflwyno'r ohebiaeth hon yn y cyfarfod nesaf.

5. Seddi Gwag

Derbyniwyd dwy gais am y ddwy sedd wag. Trafodwyd y ceisiadau yn drylwyr, ac yno gyfetholwyd Sian Beidas ar gyfer Ward Tregarth a David Roberts ar gyfer Ward St Anns.

6. Rhoddion

Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hon yn y cyfarfod nesaf.

7. Gwaith y Mis

- 7.1 Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lon Llwybr Main o gyfeiriad Lon y Grug.
- 7.2 Cadarnhawyd y Cyng. Richard Fraser-Williams fod y giatiau newydd wedi cael ei gosod ar Moelyci.
- 7.3 Nodwyd Cyng. Angharad Williams fod y bont pren o'r Lon Las at gaffi Moelyci wedi pydru, y Clerc wedi cysylltu gyda'r swyddog llwybrau yn barod.
- 7.4 Waliau llechi rhwng Fron Ogwen a Tyn Clwt wedi'i chwalu yn dilyn damweinau ceir, y tirfeddianwr yn ymwybodol ac yn edrych i fewn i'r mater.
- 7.5 Baw ci yn broblem enfawr o fewn y plwyf, y Cyngor i feddwl am syniadau sut i ddatrys y problem.

8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Dim.

9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

- 9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ionawr. Derbyniwyd yr adroddiad.
- 9.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn chwarterol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

10. Taliadau

Awdurododwyd y taliadau canlynol:

Arfon Timber	Taliad olaf – Lloches Bws Llandygai	£2,920.10
--------------	-------------------------------------	-----------

11. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ fforddiadwy
Penderfyniad: Ar y gweill.

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo ac heb eu goleuo
Penderfyniad: Ar y gweill.

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn

Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0956/16/LL

Bodorgan, Mynydd Llandygai
Cais deiliad ty i godi estyniad unllawr to gwastad i du blaen yr eiddo ac ystafell haul gwydr yn y cefn.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

12. Ceisiadau Cynllunio

C21/0079/16/DT

Bryn Celyn, Tal Gae, Tregarth
Cais deiliad ty ar gyfer dymchwel adeiladau allanol to un-codiad, codi estyniad ochr/cefn unllawr a man newidiadau i'r eiddo

Penderfyniad: Fel mae Adran 4 o'r Ffurflen Gais yn cydnabod, mae'r gwaith datblygu eisoes wedi ei gychwyn ar y safle yma, ar 1/12/2020. Mae Adran 6 o'r Ffurflen Gais yn gofyn os oes effaith am fod ar goed a chloddiau, ac mae'r ymgeisydd wedi nodi "Nag Oes". Mae hyn yn anghywir – mae gwaith sylweddol iawn eisoes wedi ei wneud yma o ran llifio a chlirio coed, ac mae'r twmpath o foncyffion sydd wedi eu llifio i'w gweld ar y safle hyd heddiw. Mae Adran 7 o'r Ffurflen Gais yn holi am yr effaith ar bio-amrywiaeth, ac yn holi os bydd coed yn cael eu llifio. Mae'r ymgeisydd wedi nodi "Na". Eto, mae hyn yn anghywir.

Am y rhesymau a nodwyd uchod – mae'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais yn anghywir ac yn gamarweiniol, felly rydym yn argymhell gwrthod y cais.

C21/0052/16/HD

Canolfan Ailgylchu Bangor Ystâd
Ddiwydiannol Llandygai
Cais rhybudd o flaen llaw i ddymchwel
adeilad canolfan ailgylchu
Penderfyniad: Dim sylw.

12. Unrhyw fater brys arall

Wefan Partneriaeth Ogwen - Y Clerc i ddiweddarwefan.